# GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

## SWYDDOG CYNALIADWYEDD
## (Cyfle Secondiad)

**37 AWR YR WYTHNOS**
**GRADD 13 - CYFLOG: £34,788**
Noder bod yr holl gyflogau'n destun gwerthuso swyddi.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn bwriadu penodi Swyddog Cynaliadwyedd ar gytundeb cyfnod penodol cychwynnol o 12 mis. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am weithio ar draws gwahanol adrannau i greu, rheoli a chyflawni prosiectau a mentrau cynaliadwyedd amgylcheddol gan sicrhau bod ein Gwasanaeth yn bodloni'r gofynion deddfwriaethol ac yn mabwysiadu arfer gorau wrth ddarparu ein gwasanaethau i ddinasyddion De Cymru.

Rhaid i ymgeiswyr allu defnyddio creadigrwydd a gwybodaeth dechnegol i gynllunio a chyflwyno mentrau a chodi ymwybyddiaeth ar draws y Gwasanaeth. Bydd deiliad y swydd hon yn adrodd yn uniongyrchol i'r Rheolwr Strategaeth Eiddo ond bydd hefyd yn gweithio'n agos gydag uwch swyddogion eraill ar draws cylch gwaith cyfan y tîm (cynaliadwyedd, ynni, fflyd, gwastraff ac ati). Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cyfrannu'n sylweddol at agweddau eraill ar strategaeth a pholisïau cynaliadwyedd amgylcheddol y Gwasanaeth yn ôl y gofyn. I gael rhagor o wybodaeth, fe'ch gwahoddir i gysylltu â Geraint Thomas, Pennaeth Cyllid a GB-Thomas@southwales-fire.gov.uk .

Rhaid i ymgeiswyr allu dangos dealltwriaeth ardderchog o gynaliadwyedd amgylcheddol, bod yn greadigol a chanolbwyntio ar ddatrysiadau. Mae llygad barcud am fanylion a sgiliau dadansoddi cryf yn hanfodol ar gyfer y swydd hon, yn ogystal â set sgiliau cyfathrebu rhifiadol, ysgrifenedig a llafar ardderchog. Gan eu bod yn gweithio'n agos gydag uwch swyddogion amrywiol, mae'n hanfodol bod gan yr ymgeiswyr y gallu i fynegi a chyflwyno gwybodaeth gymhleth yn gywir, yn glir ac yn gryno ar lafar ac yn ysgrifenedig ac mae'r sgiliau hyn yn hanfodol i'r rôl.

---

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd a gweithredir polisi gweithio'n hyblyg.
Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad boddhaol gan Wasanaeth Datgelu'r Alban ac ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

---

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Swydd Ddisgrifiad a Manyleb Person o dudalen Gyrfaoedd ein gwefan ar www.decymru-tan.gov.uk.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn Ffurflenni Cais gorffenedig yw **Dydd Llun 9 Tachwedd am 17:00 o'r gloch** a dylid dychwelyd Ffurflenni Cais gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Adnoddau, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX neu drwy law e-bost at h-goodchild@decymru-tane.gov.uk. Nodwch nad ydym yn derbyn ffurflenni CV.
Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

hyderus o ran anabledd YMRODDEDIG